Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

ARHOLIAD AELODAETH GYFLAWN

PAPUR 2

Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

4 Ebrill 2009

Dwyawr

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi cael y papur cywir
- Cyfieithwch y ddau ddarn
- Cewch gyfieithu'r darnau mewn unrhyw drefn
- Peidiwch â chyfieithu ffynhonnell y darn a nodir ar ei ddiwedd

Cyn cyflwyno'ch sgript derfynol

- Sicrhewch fod eich rhif arholi, a'ch rhif arholi'n unig, ar ben pob tudalen o'ch sgript
- Dylech olygu eich gwaith yn fanwl o safbwynt ystyr, cywair, cystrawen a chywirdeb technegol cyn ei gyflwyno

PAPUR 2 CYFLAWN – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 1

Fel yr awgryma Eakyn, nid yw defnyddio'r person cyntaf bob tro'n golygu mai'r 'person cyntaf' (hynny yw, yr awdur) sy'n siarad. Hyd yn oed mewn hunangofiannau mwy confensiynol, defnyddir y person cyntaf fel dyfais i bontio rhwng yr hen hunan a'r hunan newydd a rhoi trefn ar ddigwyddiadau a datblygiadau emosiynol nad oeddent efallai mor ddealladwy neu unionlin ar y pryd.

Rydym yn wastadol, felly, yn wynebu bwlch rhyngom ni ein hunain a'n profiadau, ac wrth inni roi ar bapur ryw syniad o'r 'hunan' cyflawn hwn y mae angen ei fynegi, mae'n bosib bod 'hunan newydd' eisoes wrth y llyw, yn tarfu ar 'wirionedd' neu 'gyflawnder' y profiad. 'Mae angen mwy nag un stori i greu gwirionedd,' meddai'r awdur preswyl ar ddiwedd *Atyniad*, 'ac mae angen mwy nag un stori i greu'r gwir'. Wrth fynd ati i lunio'r gyfrol, roedd sawl adeg pryd y byddai'r stori yn ymyrryd â'r gwir, a'r gwir yn ymyrryd â'r stori – peth cwbl angenrheidiol er mwyn esbonio'r profiad i eraill.

Ond roedd ystyriaethau eraill wrth ddechrau creu darlun ffuglennol o ofod 'go iawn', sy'n ein harwain at gwestiwn diddorol ynghylch ysgrifennu o brofiad personol. I ba raddau mae profiad yn beth annibynnol? Onid yw, yn hytrach, yn *berthynol*, ac yn anorfod gysylltiedig â phrofiadau'r rheini sydd ynghlwm wrth eich stori bersonol chi?

Wrth fentro seilio'r nofel ar brofiadau personol, roedd yn rhaid i mi hefyd gofio nad 'fersiwn' ohonof fi fy hun yr oedd yn ei greu, ond fersiwn hefyd o'r Ynys a'i phobl, ei thraddodiadau a'i thirwedd na fyddai bob amser yn gydnaws â fersiynau'r bobl a oedd

yn bresennol gyda mi yr haf hwnnw neu fersiynau ymwelwyr mynych ag Enlli. Dyna pam na fedr *Atyniad* byth fod yn ddarlun cynrychioladol o'r ynys, fwy nag y gall honni bod yn ddarlun triw ohonof i.

(Addasiad o erthygl Fflur Dafydd, 'Dyfeisio'r Gwir' yn rhifyn Gaeaf 2008 o *Taliesin*)

PAPUR 2 CYFLAWN – CYFIEITHU O'R GYMRAEG I'R SAESNEG

Darn 2

Mae GE yn llygad ei le wrth haeru bod y ddau ryfel byd wedi rhoi hwb nerthol i'r broses o Brydeineiddio Cymru. Gwanhawyd gafael ei hiaith a'i gwerthoedd; ysgytiwyd ei chymunedau i'r gwreiddiau yr un pryd â'i chlymu'n dynnach wrth Lundain. Ond i laweroedd yng Nghymru bu eu hymwneud cynyddol â'r wladwriaeth fiwrocrataidd yn fodd i ymgryfhau. Er gwaethaf effaith barlysol y Rhyfel ar y diwydiant llechi daeth Undeb y Chwarelwyr 'i oed' oherwydd ei gynnwys am y tro cyntaf un yn ei hanes mewn trafodaethau swyddogol ar faterion y wladwriaeth.

Rhoes y math hwnnw o gydnabyddiaeth hwb aruthrol i'r mudiad llafur yn gyffredinol yn ystod y Rhyfel. Yr un pryd ag yr ymestynnwyd yr etholfraint ym Mehefin 1918 a rhoi'r bleidlais i ferched dros 30 oed yn dilyn cydweithrediad y ferch yn ystod y Rhyfel, fe'i rhoddwyd hefyd i ddynion dros 21 oed. Cafodd hynny effaith aruthrol ar nifer yr etholwyr yng Nghymru. Pan gâi'r werin honno gyfle yn y man i bleidleisio ar lefel ddigynsail, nid etholai fyth wedyn lywodraeth Ryddfrydol. Ar ôl bradychu eu hymddiriedaeth hygoelus gyhyd, denwyd aelodau'r werin at bleidiau gwleidyddol amgen ymhen fawr o dro; daeth diwedd ar ddyddiau'r arweiniad paternalistaidd.

Mewn gwirionedd, gydag i'r werin ddod i'w theyrnas, fe'i tanseiliwyd yn ideolegol: y ddau sefydliad a fu'n fodd iddi wireddu ei dyheadau oedd Ymneilltuaeth a Rhyddfrydiaeth, ond fe droes y chwarae'n chwerw, ac fe dalodd y ddwy'n ddrud dros ben am y berthynas a fu rhyngddynt gynt.

O fewn ffiniau Cymru, profodd yr holl rwygiadau a amlygwyd yn ystod y dauddegau pa

mor fregus oedd y Gymru fach gymodlon a chytûn y canwyd ei chlodydd gan y beirdd am flynyddoedd cyn 1914. Wrth i'r de diwydiannol gael ei lygad-dynnu fwyfwy gan addewidion Llafuriaeth, go brin y gellid cyfeirio ag argyhoeddiad at unrhyw unoliaeth na chonsensws Cymreig a fodolai yn y cynfyd Fictoraidd.

(Addasiad o destun llyfr Gerwyn Williams, *Y Waedd*)